# Y Busnes o ddod yn Genedl Gynaliadwy

Cysylltwch â Busnes Cymru am fwy o wybodaeth o'r cymorth ar gael:

**03000 6 03000**

**http://busnescymru.llyw.cymru/cysylltwch-a-ni**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Rhagair

Ar ôl y cytundeb hanesyddol ar y newid yn yr hinsawdd gan bron 200 o wledydd yng Nghynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ym Mharis, mae'r symudiad i economi gynaliadwy yn fyd-eang, yn ddiwrthdro ac yn drawsnewidiol.

Yng Nghymru, ein henw ni ar hyn yw 'twf gwyrdd', ac mae ar y gweill eisoes.

Rwyf eisiau i Gymru fod yn genedl sy'n arwain y byd ym maes twf gwyrdd: rydym yn un o ddim ond llond dwrn o wledydd yn y byd sydd â chynaliadwyedd yn greiddiol i'n statud, ac mae gennym yr adnoddau naturiol, yr ymrwymiad a'r penderfyniad i wireddu'r uchelgais hwnnw.

Yn bwysicaf oll, rydym yn gwneud mwy na dim ond siarad am ddod yn genedl wirioneddol gynaliadwy: rydym yn creu newid, wrth fod deddfwriaeth, polisïau a phrosiectau mawr ym meysydd seilwaith ac ynni adnewyddadwy eisoes ar waith i sicrhau y gallwn symud i economi carbon isel.

Mae'r rhain yn gamau arwyddocaol, ond dim ond rhan o'r stori ydyn nhw: mae busnesau, sefydliadau ac unigolion sy'n rhannu'r gwerthoedd hyn yn allweddol i sicrhau eu llwyddiant. Rydym eisoes yn cefnogi a chydweithio â chwmnïau ym mhob sector sy'n gwybod mai'r unig ffordd i symud ymlaen yw mewn ffordd gynaliadwy; sy'n rhedeg eu busnesau heddiw gan ganolbwyntio ar yfory.

Rydym eisiau i fwy o fusnesau o'r un anian fel y rhain – rhai sydd yma eisoes a rhai sydd eisiau buddsoddi yng Nghymru – ddod yn rhan o'n taith at dwf gwyrdd. Rydym eisiau cydweithio â busnesau sy'n gallu ein helpu i gyflawni ein prosiectau mawr; y bydd eu gwaith arloesol yn pweru ein dyfodol carbon isel; sy'n mynd i'r afael â heriau byd-eang adnoddau naturiol sy'n lleihau, prisiau cynyddol deunyddiau, a gostyngiadau mewn allyriadau; a fydd yn defnyddio ein hadnoddau naturiol hynod mewn ffordd gadarnhaol a chynaliadwy; ac a fydd yn cynnal ein cymunedau trwy greu swyddi cynaliadwy.

Bydd y prosbectws hwn yn dweud mwy wrthych am y ffordd yr ydym wedi creu'r amgylchedd mae ei angen ar y busnesau hyn i hybu eu twf cynaliadwy hirdymor yma yng Nghymru: ymateb cyflym a chefnogaeth gadarn gan Lywodraeth Cymru; arbenigedd academaidd a sgiliau perthnasol; seilwaith ffisegol cadarn a seilwaith rhithwir grymus; rhwydweithiau arloesi; cadwynau cyflenwi sefydledig, a mwy.

Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC
*Prif Weinidog Cymru*

# Dyma Dwf Gwyrdd Cymru

I ni yng Nghymru, twf gwyrdd yw twf economaidd sy'n sicrhau y caiff ein cyfoeth sylweddol o adnoddau naturiol eu defnyddio'n ofalus fel y gallant barhau i'n cynnal mewn ffordd sy'n deg yn gymdeithasol, er budd pobl Cymru.

Mae hynny'n golygu sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ledled ein heconomi gyfan ac mewn busnesau a sefydliadau ar draws pob sector.

Mae Twf Gwyrdd Cymru'n trosi ein nodau polisi'n gamau gweithredu ar lawr gwlad, trwy ddeddfwriaeth, polisi a rhaglenni cyflenwi sy'n creu'r amodau gorau posibl i fusnesau, sefydliadau ac unigolion gyflawni twf cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio ochr yn ochr â busnesau i helpu i ganfod a mabwysiadu arferion ac ymagweddau i gefnogi eu twf gwyrdd mewn ffyrdd ymarferol o bob math, o wella eu heffeithlonrwydd ynni i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu sgiliau, o greu rhwydweithiau defnyddiol mewn diwydiannau i sicrhau cadwynau cyflenwi cadarn neu ariannu ymchwil a datblygu.






# **Cymru**: Cenedl sy'n gynaliadwy yn naturiol

Un elfen bwysig yn ein twf gwyrdd yw sicrhau y caiff ein cyfoeth sylweddol o adnoddau naturiol eu defnyddio'n ofalus fel y gallant barhau i'n cynnal.

Mae ein potensial naturiol i gynhyrchu ynni'r môr, ynni dŵr, ynni'r haul ac ynni gwynt ar y tir ac ar y môr yn cynnig cyfleoedd mawr i fusnesau ysgogi ein symudiad i economi carbon isel.

> Mae gennym 1,200 km o arfordir, oddeutu 32,000 km$^2$ o foroedd i'r gogledd, y de a'r gorllewin, a'r amrediad llanw mwyaf ond un yn y byd ar hyd ein glannau deheuol, a 10GW yw ein potensial o ran ynni o'r môr.


Rydym eisiau cydweithio â busnesau a fydd yn harneisio ein hasedau naturiol – ac ar yr un pryd eu diogelu – i ddatblygu dulliau cynhyrchu ynni glân ac effeithlon ar gyfer heddiw ac yfory. Rydym yn gweld buddsoddiadau mawr gan gwmnïau tramor yng Nghymru, fel RWE a Vattenfall, sy'n defnyddio'r asedau hyn i ddatblygu ffynonellau ynni cynaliadwy yn ogystal â darparu buddion economaidd a chymunedol sylweddol i bobl Cymru.

Mae Cymru'n gartref i gymysgedd amrywiol o fusnesau ynni dŵr, o ddarparwyr cyfleustodau fel Dŵr Cymru Welsh Water i gynlluniau ynni dŵr ar raddfa fach o 5 MW neu lai – yn enwedig mewn meysydd fel tir amaethyddol a datblygu cymunedol.

Ac mae ein saith porthladd mawr ar hyd ein glannau gogleddol, gorllewinol a deheuol yn gallu cynorthwyo â phrosiectau ynni adnewyddadwy'r môr a rhai o fathau eraill, trwy ddarparu arbenigedd mewn gweithrediadau, cynnal a chadw a morgludiant.

Mae adnoddau naturiol Cymru'n cynnig cyfleoedd ar wahân i gynhyrchu ynni: mae'r farchnad gwasanaethau ecosystem yma'n tyfu, ac mae cyfleoedd ym meysydd carbon, dŵr a bioamrywiaeth.

Mae ein Cronfa Natur, sy'n werth £6miliwn, er enghraifft, yn cynorthwyo prosiectau i gynyddu bioamrywiaeth yn ein hardaloedd gwledig ac arfordirol. Mae ein cyflenwad dŵr diogel a chydnerth hefyd yn chwarae rhan hanfodol yn ein datblygiad economaidd, ac mae ein coetiroedd yn cynnig potensial mawr ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy wrth gyflenwi pren i'r diwydiant adeiladu.



Lleoliadau cwmnioedd Egni ac Amgylchedd allweddol Yng Nghymry
Ynys Môn
Bangor
Wrecsam
Aberystwyth
CYMRU
Aberdaugleddau
Abertawe
Port Talbot
Castnewydd
Caerdydd
Caeredyn
IWERDDON
Dulin
Manceinion
CYMRU
Caerdydd
DU
Briste
Llundain
Amsterdam
Brwsel
Paris
Madrid
Lisbon



UPM, Shotton



Siltbuster, Sir Fynwy



Braemar Howells, Aberdaugleddau

# Creu amgylchedd busnes cynaliadwy: polisi a deddfwriaeth

Mae busnesau'n llwyddo pan fyddant yn gweithredu mewn amgylchedd rheoleiddio sy'n gefnogol ac yn bragmatig.

Mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau hyn mewn ffyrdd gwirioneddol arloesol fel y gall busnesau cynaliadwy fuddsoddi â hyder a ffynnu yma.

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gwneud datblygu cynaliadwy'n ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, er mwyn sicrhau ein symudiad i economi carbon isel. Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar ein cyrff cyhoeddus i feddwl am y tymor hir, gweithio gyda'u cymunedau a gyda'i gilydd ac ystyried yr effaith ar y dyfodol, ac mae'r gwaith hwn yn cael ei fonitro a'i gefnogi gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn gwella rheoleiddio ac yn creu fframwaith cyllidebau carbon a thargedau interim i sicrhau y caiff allyriadau eu lleihau o leiaf 80% erbyn 2050, gan ddarparu sicrwydd ac eglurder i fusnesau. Bydd hefyd yn creu cyfleoedd i fusnesau fuddsoddi mewn gwaith rheoli gwastraff yn y dyfodol, mewn cynhyrchu ynni o wastraff
a gwella effeithlonrwydd adnoddau.

Ochr yn ochr â'n hagenda ddeddfwriaethol bragmatig, rydym hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi gweledigaeth strategol glir ar draws amrywiaeth o feysydd polisi. Er enghraifft, yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi ein **Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni gyntaf ar gyfer Cymru.**

Un o'r prif bryderon i fusnesau yn aml yw'r fframwaith cynllunio a rheoleiddio, felly rydym wedi symleiddio rheoliadau a gwneud y broses yn symlach.

Unasom Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i greu **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):** 'siop un stop', un corff penderfynu ar gyfer trwyddedu amgylcheddol sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o alluogi twf gwyrdd.

**Nod Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** yw symleiddio ein system gynllunio, ac mae'n cyflwyno **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** newydd a fydd yn nodi ein blaenoriaethau o ran defnydd tir, yn ogystal â chategori newydd o geisiadau cynllunio, **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol**, y bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu arnynt.

## Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn creu saith nod llesiant i Gymru:

**1** Cymru lewyrchus

**2** Cymru gydnerth

**3** Cymru iachach

**4** Cymru sy'n fwy cyfartal

**5** Cymru o gymunedau cydlynus

**6** Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**7** Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

*"Mae Deddf Cymru ar Genedlaethau'r Dyfodol yn cyfleu ysbryd a hanfod ugain mlynedd o waith gan y Cenhedloedd Unedig ym maes datblygu cynaliadwy ac yn esiampl i ranbarthau a gwledydd eraill. Gobeithio y bydd y byd yn gwneud yfory yr hyn mae Cymru'n ei wneud heddiw."*

**Nikhil Seth** *Cyfarwyddwr Isadran Datblygu Cynaliadwy, Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig (2015)*




Magnox Ltd, Wylfa, Ynys Môn

# Sicrhau cenedl gynaliadwy: prosiectau a chyfleoedd

Mae symudiad Cymru i economi carbon isel yn cynnig llawer o gyfleoedd masnachol wrth i'r sectorau preifat a chyhoeddus yma weithio tuag at ein targedau.

> Bydd gwaith cwmni Hitachi i adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ar gost o £12biliwn ar Ynys Môn yn cael ei gwblhau erbyn canol y 2020au, ac mae'n cynnwys uchelgais i ddod â 60% o werth y prosiect i gyflenwyr brodorol a mewnfuddsoddwyr.

Mae'r oes gweithredu a ragwelir i'r orsaf, sef 60 mlynedd, yn golygu y gallai contractau diogelwch, peirianneg, cynnal a chadw ac eraill ddarparu diogelwch ar gyfer twf hirdymor busnesau.

Mae galw am fusnesau Gwasanaethau Proffesiynol Amgylcheddol a busnesau gwastraff ac ailgylchu, wrth i dargedau gynyddu. Mae ein rhaglen effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus yn uchelgeisiol, a'r nod yn y pen draw yw gwasanaeth cyhoeddus carbon niwtral. Caiff hon ei chefnogi gan Gymru Effeithlon, Partneriaethau Lleol a'n rhaglen newydd REFIT, ynghyd â buddsoddiad newydd.

Diolch i gynlluniau twf gwyrdd Buddsoddi i Arbed mae mwy na £21.4miliwn wedi cael eu hymrwymo eisoes i brosiectau sy'n cynnwys goleuadau stryd newydd, goleuadau LED mewn gorsafoedd tân ac ysbytai, a systemau gwresogi a goleuadau newydd mewn ysgolion. Yn awr, cyhoeddwyd gwerth £13.4miliwn yn rhagor o gyllid, a bwriedir buddsoddi hyd yn oed mwy.


Bydd angen contractwyr i'n helpu i gyrraedd ein targedau i arbed mwy na £452miliwn ar filiau ynni'r sector cyhoeddus a mwy na 8 miliwn o dunelli o allyriadau carbon – ac mae'r cyfleoedd yn rhai hirdymor.

Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnig llwyfan ar gyfer twf gwirioneddol i'r cwmnïau sy'n cyflawni'r contractau hyn: caiff y buddsoddiadau eu hailgylchu wrth iddynt gael eu had-dalu, felly bydd y buddsoddiad cychwynnol gwreiddiol o £34.9miliwn yn cefnogi buddsoddiad o fwy na £140miliwn dros 20 mlynedd.

Rydym hefyd yn hybu mwy o systemau cynhyrchu ynni a gwres a ddosberthir, lle mae galw lleol, a phrosiectau arddangos byw yn ddoeth.

Rydym wedi buddsoddi mwy na £285miliwn dros y chwe blynedd diwethaf mewn gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, er mwyn lleihau'r perygl i gartrefi a busnesau. Rydym yn parhau â'r buddsoddiad hwn er mwyn cynyddu cydnerthedd Cymru.

Rhwng 2018 a 2021 byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i fuddsoddi £150miliwn ychwanegol mewn gwaith cynaliadwy i reoli perygl arfordirol, gan gynnig rhagor o gyfleoedd i fusnesau.




“Mae manteisio ar botensial twf gwyrdd yn allweddol i’r gwaith o drawsnewid y ffordd yr ydym yn cynnal busnes. Yn greiddiol i’r agenda twf gwyrdd mae’r angen i ddod yn fwyfwy arloesol, effeithlon a chynaliadwy – mae hyn yn synnwyr busnes da, ac mae gan Gymru stori gref i’w hadrodd. Rydym yn falch i arddangos ein cyflawniadau yn y Fforwm Rhyngwladol Twf Gwyrdd hwn ac i rannu arferion gorau gydag eraill.”

**Edwina Hart, MBE, CStJ, AC**
*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru*

“Ni yw’r wlad gyntaf yn y byd i lunio deddfwriaeth ar gyfer yr Amcanion Rhyngwladol a’u cysylltiad â’n Hamcanion Llesiant ein hunain ar gyfer Cymru. Rydym wedi gweithredu’n ddeddfwriaethol i sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.”

**Carl Sargeant AC**
*Gweinidog Adnoddau Naturiol*



Pen y Fan, Bannau Brycheiniog

# Sut yr ydym yn helpu twf gwyrdd: cyllid a sgiliau

Mae sicrhau ein symudiad i economi carbon isel yn galw am fusnesau, cynhyrchion, technolegau a gwasanaethau arloesol.

Felly rydym yn buddsoddi cymaint ag sy'n bosibl ac yn cefnogi busnesau y mae eu datblygiadau arloesol yn sail i'r twf cynaliadwy hwn yn ariannol ac o ran recriwtio a datblygu gweithlu medrus.

## Cyllid

Mae gennym y lefelau cyllid uchaf yn y Deyrnas Unedig ac, yn ystod 2014-2020, bydd mwy na £2biliwn o gyllid Ewropeaidd yn cael eu fuddsoddi ar draws Cymru mewn seilwaith; ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni; sgiliau, ymchwil ac arloesi.

Mae hyn yn golygu bod yna gyfres hyblyg o becynnau cyllid i helpu busnesau gyda chostau prosiectau i gefnogi twf gwyrdd, o ddod o hyd i safle i recriwtio pobl allweddol, o fuddsoddi cyfalaf i ymchwil a datblygu a all ddatblygu cysyniadau i gael eu cyflwyno i'r farchnad.

Gallwn hefyd helpu busnesau i fanteisio ar gyfleoedd ehangach o ran cyllid yr Undeb Ewropeaidd, fel rhaglen ymchwil yr Undeb, Horizon 2020, neu i gydweithredu ar draws ffiniau trwy raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

Rydym yn cydweithio'n agos â rhaglenni cyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig gan gynnwys yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Masnach a Buddsoddi'r Deyrnas Unedig, Innovate UK, y Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel a'r Advanced Propulsion Centre i sicrhau'r pecyn gorau posibl o gymorth i unrhyw brosiect.

Mae ein Rhaglen Datblygu Gwledig yn buddsoddi bron £1biliwn i gefnogi marchnadoedd newydd a gwelliannau busnes er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy ac arloesol i'n diwydiannau tir a'r gadwyn gyflenwi bwyd.

## Sgiliau

Mae gennym weithlu medrus sydd wedi cael addysg dda ac a all ymateb i her twf gwyrdd, ac mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â phob sector i gynorthwyo â'r sgiliau mae eu hangen ar gyflogwyr.

Byddwn yn parhau i gydweithio â'r tair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol i lywio'r ffordd y caiff ein buddsoddiad mewn sgiliau ei flaenoriaethu a datblygu cymwysterau galwedigaethol a phrentisiaethau sydd o fudd i'r sector ynni yng Nghymru.



## Rhai rhwydweithiau, mentrau a chanolfannau ymchwil yng Nghymru sy'n cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu economi fwy cynaliadwy:

### Marine Energy Pembrokeshire

Byd diwydiant, y gadwyn gyflenwi, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus yn cydweithio i wneud Sir Benfro yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu ynni cynaliadwy o'r môr.

### The National Research Network for Low Carbon Energy & Environment [NRN – LCEE]

Mae'r NRN-LCEE yn dwyn ynghyd bump o'n prifysgolion, y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Arolwg Daearegol Prydain yng Nghymru a Swyddfa Dywydd y Deyrnas Unedig.

### Campws Arloesedd a Menter Aberystwyth

I gefnogi'r fio-economi ar gyfer bwyd cynaliadwy, iechyd, biotechnoleg ac ynni adnewyddadwy.

### BEACON+

Prosiect bio-buro gwerth £12miliwn lle mae tair o'n prifysgolion yn cydweithio â byd diwydiant i ddatblygu deunyddiau, tanwyddau a chemegolion cynaliadwy.

### Sefydliad Ymchwil Carbon Isel

Mae hwn yn dwyn ynghyd ymchwil o bum prifysgol yng Nghymru ac mae'r pynciau'n cynnwys yr amgylchedd adeiledig, cynhyrchu pˆwer ar raddfa fawr ac ynni'r môr.

### Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)

Mae IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth yn gweithio ar brosiectau cynaliadwyedd gan gynnwys technolegau biodanwydd a chynhyrchu bwyd.

### Sefydliad Ymchwil Diogelwch Ynni (ESRI)

Mae'r Sefydliad, a gwblhawyd yn ddiweddar ym Mhrifysgol Abertawe, yn gweithio ar botensial ynni adnewyddadwy o'r môr, ynni'r llanw, ynni niwclear ac ynni nwy anghonfensiynol, gan gydweithredu â phartneriaid ym myd diwydiant a'r byd academaidd.

### Yr Arloesfa

Cwmni cyfyngedig preifat sy'n eiddo i Weinidogion Llywodraeth Cymru ac sy'n gweithio gyda chwmnïau technoleg ddigidol i gynyddu cyllid arloesi, sicrhau arloesi technolegol a chreu twf cynaliadwy yng Nghymru.

### Sêr Solar

Mae Sêr Solar ym Mhrifysgol Abertawe'n ymchwilio i effeithlonrwydd, fforddiadwyedd a hirhoedledd celloedd solar ffotofoltaidd, gan gynnwys technoleg solar y gellir ei hargraffu ar fetelau.

### Centre for Automotive & Power System Engineering (CAPSE)

Mae CAPSE, yn y Gyfadran Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth ym Mhrifysgol De Cymru, yn dŷ ymchwil, datblygu, profi ac ardystio annibynnol a gydnabyddir yn genedlaethol ac sydd ag enw am weithgareddau ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth sydd ar flaen y gad yn sectorau uwch beirianneg modurol a systemau pŵer.

### Courtauld 2025

Menter i helpu defnyddwyr i leihau gwastraff bwyd y gellir ei osgoi yn y cartref, ac i annog busnesau i rannu arbedion effeithlonrwydd ar hyd cadwynau cyflenwi, gwastraffu llai a chael mwy o werth o wastraff na ellir ei osgoi a chynyddu cydnerthedd busnesau.

### Arloesi Bwyd Cymru

Mae hwn yn dwyn ynghyd ein tair canolfan ragoriaeth bwyd. Nod Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020 yw cynyddu cynnyrch y sector 30% i £7biliwn erbyn 2020. Mae'n canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu cynaliadwy trwy arbedion effeithlonrwydd adnoddau, rheoli gwastraff, arloesi, hyfforddiant / gwella sgiliau yn y diwydiant bwyd a diod.

### Y Ganolfan Ymchwil ac Arddangos Hydrogen

Y ganolfan hon, a ddatblygwyd gan Brifysgol De Cymru, yw'r canolbwynt ar gyfer ymchwil, datblygu ac arddangos technoleg ynni hydrogen yng Nghymru ar Barc Ynni Baglan.

Siltbuster, Sir Fynwy

# **Sut yr ydym yn helpu twf gwyrdd:** arloesi ac ymchwil a datblybu

Rydym eisiau cynorthwyo busnesau sy'n ceisio cyflwyno i'r farchnad dechnolegau arloesol a fydd yn chwarae rhan bwysig wrth wella cynaliadwyedd, o thermostatau i oleuadau, o ddyfeisiau symudol i geir heb yrrwr.

Rydym hefyd yn cynyddu'r gallu o ran ymchwil yng Nghymru ac yn creu rhwydweithiau sy'n dwyn ynghyd fyd diwydiant, y byd academaidd a llywodraeth mewn ymagwedd gydgysylltiedig at dwf gwyrdd. Felly, nid yn unig mae busnesau yma'n cael cymorth ariannol a chefnogaeth gan y sector cyhoeddus, maent hefyd ag arbenigedd y byd academaidd, byd diwydiant a chadwyn gyflenwi ar flaenau eu bysedd.





**Invertek Drives**
Mae Invertek Drives, sydd â safle yng Nghanolbarth Cymru, wedi datblygu cynnyrch a all sicrhau gostyngiad o fwy na 50% yn yr ynni a ddefnyddir gan foduron trydan mewn systemau cludydd, gwresogi, awyru a phwmpio a systemau eraill. Defnyddiwyd buddsoddiad o Gronfa SMARTCymru, i gyflogi arbenigwyr ar ymchwil a datblygu, y bydd eu gwaith yn hanfodol i sicrhau y bydd Invertek Drives yn dyblu ei drosiant i £35miliwn.

**Solcer House**
Mae arbenigwyr o Brifysgol Caerdydd wedi cynllunio ac adeiladu'r tŷ technoleg ynni rhad pwrpasol cyntaf yn y Deyrnas Unedig, sy'n gallu allforio mwy o ynni i'r grid trydan cenedlaethol nag y mae'n ei ddefnyddio.





**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**
Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi defnyddio cyllid Buddsoddi i Arbed i osod goleuadau LED yn Ysbyty Plant Cymru a thwneli tanddaearol yn y prif ysbyty. Bydd hyn yn cyfrannu at darged ei ystâd i arbed 250 o dunelli o $CO_2$ a £50,000 y flwyddyn o gostau ynni.

**Dansco Dairy**
Cafodd Dansco Dairy gymorth gan Lywodraeth Cymru i leihau'r ynni mae'n ei ddefnyddio yn ei systemau oeri. Trwy ddilyn cynllun gweithredu pum cam cynhwysfawr ar draws yr holl gamau yn ei drefn cynhyrchu caws, mae'r cwmni wedi cwtogi £100,000 y flwyddyn, ar amcangyfrif, ar ei filiau ynni.



978-1-4734-5979-3